

## Nodweddion Diddorol

- Mae'r enw, Derwenlas, yn tarddu o hen dderwen a safodd wrth fynedfa'r hen borthladd. Hyd at Dderwenlas, afon lanw yw'r Dyfi, ac yn oes Fictoria, gallai cychod o hyd at 70 o dunelli hwylio mewn ac allan ar y penllanw. Gellid gweld hyd at bedwar ugain cwch gyda'u hwyliau wedi'u codi ar y rhan yma o'r afon ar yr un pryd, yn ystod y dydd neu gyda'r nos, gan ddibynnu ar y llanw. Roeddent yn cludo llechi o'r chwareli lleol, plwm o'r mwyngloddiau, pren derw, a rhisgl ar gyfer y diwydiant trin lledr. Ceid ierdydd adeiladu llongau ac odynau calch hefyd.
- Ym 1862, cododd entrepreneur o'r enw Thomas Savin reilffordd ager newydd rhwng Aberystwyth a Machynlleth. Torrodd y rheilffordd trwy'r prif ddoc ar yr afon, a dargyfeiriwyd yr afon gan arglawdd newydd, gan adael Derwenlas heb fynediad at yr afon. Ar ôl dyfodiad y rheilffordd, edwinodd y porthladd.
- Ym 1883, prynodd John Rees, gwneuthurwr watsys o Fachynlleth, gwch gan ei addasu i fod yn un o longau tanfor cyntaf y byd. Gwahoddodd ddyn o'r enw Capten Richards i fynd gydag e ar y ddeif gyntaf, heb sylweddoli taw capten mwynglawdd ydoedd, ac nid morwr. Aeth y llong dan y dŵr, yn ôl y bwriad, ond methodd â dod yn ôl i'r wyneb. Yn ffodus, rodd yn ddigon agos at y lan, a llwyddodd y dorf fawr o wylwyr i'w thynnu i'r lan gyda rhaffau, gan achub y ddau ddyn anffodus.

## Points of Interest

- The name Derwenlas means green oak, after an oak tree which grew at the entrance to the old port. The river is tidal up to Derwenlas, and in Victorian times vessels of up to 70 tons could sail in and out at high tide. Up to eighty boats with their sails up could be seen on this stretch of the river at the same time, by day and night, depending on the tide. They carried slate from the local quarries, lead from the mines, oak timbers, and bark for the leather tanning industry. There were shipbuilding yards and lime kilns.
- In 1862 an entrepreneur, Thomas Savin built a new steam railway between Aberystwyth and Machynlleth. The railway cut through the main river dock and the river was diverted by a new embankment, leaving Derwenlas land locked. After the railway came, the port faded.
- In 1883 John Rees, a Machynlleth watchmaker, bought a boat and converted it into one of the world's first submarines. He invited one Captain Richards to accompany him on its first dive, not realising he was a mine captain and not a sailor. The vessel duly submerged, but failed to surface. Fortunately it was close enough to the bank for the large crowd of bystanders to drag it ashore with ropes and rescue the unfortunate pair.





# Taith Gerdded Derwenlas

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Derwenlas Walk




**Dechrau:** Cilfan Derwenlas
**Cyfeirnod Grid:** SN721 991
**Pellter:** 6.2 km - 3.8 milltir
**Gradd:** Canolig
**Tirwedd:** Llwybrau cadarn, caeau agored, rhai mannau corslyd
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer OL23
**Lluniaeth:** Tafarn y Llew Du, Derwenlas

1. Gan wynebu'r Llew Du, trowch i'r dde i gerdded i fyny'r bryn. Ychydig ar ôl y peilon, trowch yn sydyn i'r chwith i ddilyn llwybr a arwyddir i fyny ac i mewn i'r coetir. Ewch trwy giât gan ddal i fynd i fyny tan i chi droi i'r dde ar drac ger fferm ac wedyn i'r chwith wrth arwyddbost bys i ddilyn llwybr gwelltog i fyny'r banc. Pan gyrhaeddwch y trac tarmac, trowch i'r chwith.
2. Ychydig cyn i'r ffordd droi i'r chwith tuag at giât, trowch i'r dde i gerdded ar draws y cae a dros gamfa. Cerddwch yn syth ymlaen i fynd trwy giât defaid yng nghornel gwaelod y cae wrth ochr coedwig gonwydd. Cerddwch yn groeslinol i'r chwith i lawr y cae ac ar hyd llwybr suddedig. Pan gyrhaeddwch domen lechi ar y dde, trowch i'r chwith dros cribyn cyn mynd i lawr i fynd trwy giât arall. Anwybyddwch y llwybr gan droi i'r chwith i lawr y banc serth i gyrraedd llwybr gwelltog.
3. Trowch i'r chwith trwy giât i mewn i'r coetir ac ymlaen ar hyd y trac, gan anwybyddu pob troad ar y dde cyn gadael y coetir trwy giât.
4. Trowch i'r chwith gan gadw'r wal ar y dde i ddilyn llwybr heibio coed. Wrth y gyffordd lle mae wal yn dod i lawr o'r chwith, trowch i'r chwith i gerdded yn groeslinol i fyny'r cae i gyrraedd trac. Trowch i'r chwith gan gerdded i fyny trwy giât cyn troi'n syth i'r dde ar hyd trac gwelltog. Ymunwch â thrac arall, gan ei ddilyn i'r chwith o gwmpas bryn caregog. Wrth iddo ddarfod, trowch i'r dde i groesi'r cae, gan gadw'r sgubor ar y chwith. Pan gyrhaeddwch y ffens, trowch i'r dde gan ei ddilyn tuag at giât ar y chwith.
5. Ewch trwy'r giât gan gerdded yn syth ymlaen i fynd trwy'r giât ar y dde. Ewch ymlaen gan wyro ychydig i'r chwith trwy giât ar y dde. Ewch tua'r chwith i lawr y bryn, a thrwy giât wrth ochr trac. Dilynwch y ffens ar y chwith i lawr trwy giât ar waelod y cae, ac ymlaen tuag at fferm. Cadwch adeiladau'r fferm ar y chwith i fynd trwy'r iard ac allan ar lôn darmac ar y dde. Ar ael y bryn, trowch yn syth i'r dde wrth arwyddbost bys i fynd trwy giât.
6. Ewch ymlaen, gan wyro ychydig i'r chwith cyn mynd i lawr trwy giât. Daliwch i fynd i lawr y bryn gan anelu at droadau yn yr Afon Dyfi i nesáu'n raddol at nant ar y dde mewn coed yn y gornel dde ar waelod y cae, croeswch y nant, ac ymlaen trwy giât i'r cae. Trowch i'r chwith i gerdded ar hyd ffin y coetir i ddringo camfa, ac wedyn trowch i'r chwith ac wedyn i'r dde i ddilyn y llwybr i lawr i'r briffordd.



**Start:** Lay-by Derwenlas
**Grid Reference:** SN721 991
**Distance:** 6.2 km - 3.8 miles
**Grade:** Moderate
**Terrain:** Firm tracks, open fields, some boggy areas
**Maps:** OS Explorer OL23
**Refreshments:** Black Lion Inn, Derwenlas

1. Facing the Black Lion Inn turn *R* to walk uphill. Just after the pylon turn sharp *L* to follow a signed path up into the woodland. Go through a *G* and continue upwards until you turn *R* onto a track by a farm, then *L* at a finger post to follow a grassy path up the bank. When you reach the tarmac track, turn *L*.
2. Just before road swings *L* to a *G*, turn *R* to walk across the field and over a *S*. Walk ahead to go through sheep hurdles in the bottom corner of the field next to a conifer wood. Walk diagonally *L* down the field and along a sunken track. On reaching a slate tip on your *R*, turn *L* over the ridge before dropping down to go through another *G*. Ignoring the track, bear *L* to go down a steep bank to reach a grassy track.
3. Turn *L* through a *G* into the woodland and on along the track, ignoring any turnings on the *R* before exiting the woodland through a *G*.
4. Turn *L* keeping the wall on your *R* to follow a path past trees. At a junction where a wall comes down from *L*, turn *L* to walk diagonally up the field to reach a track. Turn *L* and walk up through a *G* before turning immediately *R* along a grassy track. Join another track and follow it *L* around the rocky hill. As it peters out, turn *R* to cross the field, keeping the stone barn on your *L*. On reaching the fence, turn *R* and follow it to a *G* on your *L*.






5. Go through the *G* and walk directly ahead to go through the *R* hand *G*. Continue ahead bearing slightly *L* through a *G* on your *R*. Bear *L* downhill and through a *G* next to a track. Follow the *LH* fence down through a *G* at the bottom of the field and on ahead towards farm. Keep farm buildings on *L* to go through yard and exit via tarmac lane on *R*. At the brow of the hill, turn immediately *R* by a finger post to go through a *G*.
6. Walk ahead bearing slightly *L* before dropping down through a *G*. Continue downhill aiming for bends in the River Dyfi to gradually close with a stream on the *R* in trees in the far bottom *RH* hand corner, cross stream and on through a *G* into a field. Turn *L* to walk along the woodland boundary to climb a *S*, then turn *L* then *R* to follow the path down to the main road.

# Taith Derwenlas Walk

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014

© Lluniau/Pictures Jeremy Moore